Cymru ar gyfer Plant (4Cs) lwyfan CCSR gan ei fod yn llwyfan Cymreig parod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – a ddatblygwyd ganddi, sy'n eiddo iddi ac yn ei cael ei rheoli ganddi – y gellid ei ddatblygu i ddiwallu anghenion comisiynu, contractio a chaffael. Datblygodd borth e-dendro i ddarparu'r Fframwaith Cymru Gyfan (gofal preswyl a maeth) ac i ddarparu'r gallu i ganfod a chydweddu lleoliadau.

Mae'r rhan hon o system CCSR yn haen o fynediad cyfyngedig i ddarparwyr Awdurdodau Lleol a Fframwaith yn unig, wedi'u gwerthuso a'u sicrhau o ran ansawdd gan y Consortiwm, y mae'n ofynnol iddo, o dan Fframwaith Cymru Gyfan, ddiweddaru gwybodaeth am ofalwyr maeth, lleoliadau gofal a lleoedd gwag. Mae hyn yn effeithiol ac yn cael ei adolygu fel rhan o'r drefn ddyddiol o reoli'r contract.

Mae CCSR yn darparu manylion pob gofalwr maeth sy'n ddarparwr ar y Fframwaith Cymru Gyfan ynghyd â lleoedd gwag, a manylion cyfatebol holl leoliadau a lleoedd gwag gofal preswyl y Fframwaith. Caiff hyn ei fonitro gan y Consortiwm / Data Cymru ac mae'n gyfredol. Mae hefyd yn cynnwys adroddiadau arolygu darparwyr y Fframwaith gan Arolygiaeth Gofal Cymru a datganiad o ddibenion darparwyr. Mae gan CCSR y gallu i bob awdurdod lleol ychwanegu ei holl ddarpariaeth gofalwyr maeth a lleoliadau preswyl yn gyfrinachol ac yn ddiogel i'r system.

Mae CCSR hefyd yn darparu manylion gofalwyr maeth gan nifer bach o asiantaethau eraill nad ydynt ar y Fframweithiau ond sy'n dal i weld budd tanysgrifio i'r gwasanaeth (darparwyr nad ydynt ar fframwaith) ond mae'r ffi danysgrifio flynyddol y mae'n rhaid iddynt ei thalu am y gwasanaeth yn rhwystr i rai darparwyr llai rhag defnyddio'r system.

Gan fod cyfyngiadau ar fynediad, ni fyddai llawer o ddarparwyr a allai fod wedi cyfrannu at drafodaethau'r pwyllgor yn gallu gweld yr elfen hon o'r gronfa ddata ac felly mae'n bosibl na fyddant yn gwbl glir am ei swyddogaethau na natur fyw ei ddefnydd bob dydd. Fodd bynnag, byddai ganddynt fynediad i'r llyfrgell adnoddau lefel uchel sy'n uwch na modiwl tendro'r Consortiwm ac sy'n weladwy i ystod ehangach o randdeiliaid. Mae'r llyfrgell yn rhan o raglen ailddatblygu i'r dyfodol a fydd yn cael ei llywio ar sail barn rhanddeiliaid.

Er mwyn cefnogi gweithredu pellach, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hefyd a fyddai hi'n ymarferol gorfodi pob asiantaeth faethu i gofrestru ar CCSR fel rhan o'u cofrestriad o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. Byddai angen i'r gwaith hwn gyd-fynd â'n hystyriaeth ynghylch cyflwyno cofrestr faethu genedlaethol yng Nghymru.

| |
|---|
| mae'n bwriadu eu cymryd law yn llaw ag awdurdodau lleol i leihau'r defnydd o lety heb ei reoleiddio amhriodol yng Nghymru. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar nifer y plant 16 oed a hŷn sy'n gadael gofal yn ôl oedran a llety ar ddyddiad peidio â derbyn gofal.  Mae ein data ystadegol cyhoeddedig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 yn dangos, o blith y 700 o bobl ifanc 16 oed a hŷn a adawodd ofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, fod 670 (96%) ohonynt mewn llety addas ar y dyddiad pan ddaeth eu gofal i ben. Ystyrir bod llety'n addas os yw'n cynnig darpariaeth saff, diogel a fforddiadwy i bobl ifanc. Mae cyfran y bobl ifanc sydd mewn llety addas wedi cynyddu o 92% yn 2016-17 pan ddechreuodd data gael eu casglu.<br>Roedd 28% o bobl ifanc mewn llety addas gyda rhieni neu berthnasau ac roedd 26% mewn llety cyffredin heb gymorth ffurfiol. Yn gyffredinol, mae cyfran y bobl ifanc sydd mewn llety cyffredin heb gymorth ffurfiol wedi cynyddu ers 2018-19, yn ogystal â'r gyfran mewn llety pontio lled-annibynnol (tua 18%). Yn gyffredinol, mae cyfran y bobl ifanc sydd gyda rhieni neu berthnasau, sy'n byw'n annibynnol ac mewn llety â chymorth addas, wedi gostwng dros y cyfnod hwn.<br><br>Ystyrir bod llety gwely a brecwast yn anaddas hefyd, ac ystyrir bod mathau eraill o lety yn anaddas os ydynt yn amlwg yn golygu bod y person ifanc yn agored i risg o niwed neu allgáu cymdeithasol. Mae nifer a chyfran y gadawyr gofal sydd mewn llety anaddas wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gostyngodd nifer y gadawyr gofal sydd mewn llety anaddas 5 (14%) o 35 i 30 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n cyfateb i 4% o adawyr gofal mewn llety anaddas ar adeg gadael gofal yn ystod 2021-22. Dyma'r gyfran isaf ers i ddata ddechrau cael eu casglu yn 2016-17.<br><br>Er ei bod yn anodd gweld o dan ba amgylchiadau y byddai plentyn dan 16 oed yn cael ei roi mewn gwasanaeth heb ei reoleiddio gan y byddai angen gofal arno a fyddai'n golygu y byddai angen cofrestru'r gwasanaeth, rydym yn awyddus i ddysgu o brofiad Lloegr o wahardd rhoi pobl dan 16 oed mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio a byddwn yn parhau i adolygu hyn. |

| **Derbyniwyd** | **Gwrthodwyd** |
|---|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt polisi mewn perthynas â llety heb ei reoleiddio, gan gynnwys y camau y mae'n bwriadu eu cymryd law yn llaw ag awdurdodau lleol i | Dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi dadansoddiad o'r defnydd o lety heb ei reoleiddio ar |

<table>
<tr><td colspan="2">Fel rhan o'i drafodaethau, mae'r panel wedi ystyried y profiad o ddigartrefedd i'r rhai sy'n gadael gofal a pha fesurau atal wedi'u targedu, a hwylusir naill ai drwy ddeddfwriaeth neu drwy ddulliau polisi ehangach, fyddai’n atal digartrefedd yn well i'r grŵp hwn.<br><br>Ar ôl derbyn adroddiad terfynol y Panel Adolygu Arbenigol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Papur Gwyn, a fydd yn nodi ein cynigion ar gyfer newid deddfwriaethol i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal ar gyfer y rhan fwyaf o’r rhai sy’n wynebu risg; ac i sicrhau, pan na ellir ei atal, ei fod yn anaml, yn fyr, ac nad yw’n digwydd dro ar ôl tro.<br><br>Mae argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi llywio trafodaethau parhaus y panel a'r gwaith datblygu cyfochrog ar y Papur Gwyn ac rydym wedi ymrwymo i weithredu i atal digartrefedd i'r rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal drwy'r diwygiadau hyn.</td></tr>
<tr><td>Derbyniwyd<br><br>Rydym yn derbyn yr angen i archwilio argymhellion y Pwyllgor.</td><td>Gwrthodwyd<br><br>Fodd bynnag, ni allwn fwrw ymlaen â'r argymhelliad ar yr union ffurf a gynigir gan ei fod yn cyfeirio at gyfraith yr ydym yn ceisio’i diwygio.</td></tr>
</table>

**Cwestiwn 2**

**Y Rhaglen Drawsnewid / Y Grŵp Cyflawni / Y Bwrdd Trosolwg Gweinidogol**

**Yn achos pob un o'r uchod, eglurwch:**
- **Y cylch gorchwyl**
- **Yr aelodaeth**
- **Statws (ee a yw'n gwneud penderfyniadau neu'n cynghori, i bwy y mae'n atebol)**
- **Trosolwg cryno o'r cynllun gweithredu / rhaglen waith gan gynnwys dyddiadau a'r canlyniadau disgwyliedig**
- **Naratif o'r gydberthynas rhyngddynt**

**1 Cylch gorchwyl**

Yn Atodiad **A**, gweler copi o Gylch Gorchwyl y Bwrdd Trosolwg Gweinidogol wedi'i atodi.

Yn Atodiad **B**, gweler copi o Gylch Gorchwyl y Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant wedi'i atodi.

**2 Aelodaeth**

Mae aelodaeth y Bwrdd Trosolwg Gweinidogol fel a ganlyn:

Y Prif Weinidog (Cadeirydd, am yn ail â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol)
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol (Cadeirydd, am yn ail â'r Prif Weinidog)
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol
Prif Weithredwr CAFCASS Cymru
Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru
Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Arweinydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Mae aelodaeth y Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant yn cynnwys cynrychiolwyr ar gyfer:

Dau berson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan
Barnardo's Cymru
Cafcass Cymru
Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Plant yng Nghymru
Cwmpas
Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
NYAS Cymru
NSPCC Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Voices from Care Cymru
CLlLC

Swyddogion polisi Llywodraeth Cymru o'r adrannau a ganlyn:

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddfa'r Cabinet
CAMHS ac Iechyd Meddwl Cyn-filwyr
Tegwch mewn Addysg
Llywodraeth Leol, Trawsnewid a Phartneriaethau
Polisi Tai
Cymunedau a Threchu Tlodi

## 3 Statws

Statws y Bwrdd Trosolwg Gweinidogol yw goruchwylio'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant a darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad gwleidyddol ar gyfer y Rhaglen.

Statws y Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant yw annog ac arwain y gwaith o gyflawni 8 o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer gwasanaethau plant yn holistaidd, gan sicrhau bod yr ymrwymiadau hynny ar waith ac wedi'u sefydlu erbyn 2026. Mae'r Grŵp yn adrodd i'r Bwrdd Trosolwg Gweinidogol.

## 4 Trosolwg cryno o'r cynllun gweithredu / rhaglen waith gan gynnwys dyddiadau a'r canlyniadau disgwyliedig

Yn Atodiad **C**, mae copi o Fap Trywydd y Rhaglen Drawsnewid wedi'i atodi.

# Y Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant

## Cylch Gorchwyl

**Diben**
Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu agenda ddiwygio heriol ar gyfer gofal cymdeithasol plant yn Nhymor y Senedd 2021-2026, fel y nodir yn ei Rhaglen Lywodraethu, i gyflawni trawsnewid ar draws y system.

Mae'r Grŵp Cyflawni yn cael ei sefydlu i arwain a bwrw ymlaen â chyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn gyfannol, gan drawsnewid gwasanaethau plant a sicrhau bod yr ymrwymiadau hynny ar waith ac yn ymwreiddio erbyn 2026. Caiff y gwaith hwn ei symud ymlaen ar y cyd â'n partneriaid, a bydd hawliau a llais plant a phobl ifanc wrth wraidd y gwaith.

**Y rhesymeg dros y dull gweithredu hwn**
O gofio'r ystod o ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu rheoli a'u harwain mewn ffordd gydlynol, gan drawsnewid Gwasanaethau Plant trwy gefnogi plant yn well i aros gyda theuluoedd; cynnig darpariaeth sy'n seiliedig ar werthoedd sy'n diwallu anghenion ein plant mwyaf agored i niwed a sicrhau bod llais, hawliau a chanlyniadau yn rhan annatod o bopeth a wnawn.

Wrth wraidd y gwasanaeth rydym am weld llai o blant a phobl ifanc yn mynd i mewn i ofal. Rydym hefyd am i'r cyfnod y mae pobl ifanc yn aros mewn gofal fod mor fyr â phosibl, yn gyson â diwallu anghenion y person ifanc. Tra bo plant mewn gofal, rydym am iddynt aros yn agos at eu cartrefi fel y gallant barhau i fod yn rhan o'u cymuned - rhwydwaith y plentyn. Rydym am weld dull amlasiantaethol dim drws anghywir sy'n sicrhau'r un cyfleoedd bywyd i bob plentyn.

**Egwyddorion Gweithredu'r Grŵp**

**Egwyddor gyntaf:** Caiff yr holl weithgarwch a chanlyniadau eu cydgynhyrchu rhwng Llywodraeth Cymru a'r holl asiantaethau, rhanddeiliaid a phobl ifanc berthnasol.
**Ail egwyddor:** Bydd y Grŵp, bob amser, a rhwng yr holl aelodau'n dangos statws cyfartal gydag ymddiriedaeth, gonestrwydd, parch, empathi a thryloywder.
**Trydedd egwyddor:** Bydd y Grŵp yn cefnogi ac yn herio a yw gwaith cyflawni'r rhaglen ar y trywydd iawn ac yn argymell y camau gweithredu y mae eu hangen i gynnal cyflymder y cyflawni.
**Pedwaredd Egwyddor:** Mae'r Grŵp yn grŵp gweithredol gyda pharodrwydd uchel ond cyfrifol i dderbyn risg.
**Pumed egwyddor:** Bydd y Grŵp yn gyfeillgar i blant/pobl ifanc ac yn eu cynnwys ac yn cyfathrebu'n rheolaidd â hwy gan ddefnyddio iaith glir a chynhwysol

**Llywodraethiant**
Bydd y Grŵp Cyflawni yn adrodd ar gynnydd a materion i'r Bwrdd Goruchwylio Gweinidogol gan sicrhau bod polisi a rhaglenni'r Llywodraeth ar y trywydd iawn ac yn cael eu darparu yn brydlon ac o fewn y gyllideb.

**Rôl Aelodau'r Grŵp**

- Sicrhau bod gan systemau casglu a rhannu gwybodaeth ganolbwynt clir yn yr holl waith sy'n cael ei wneud,. Ni ddylem fod yn ychwanegu at systemau ond yn hytrach yn ystyried sut y gallwn symleiddio gwybodaeth i gael gwybodaeth well ar adegau allweddol o wneud penderfyniadau.

- Darparu arweiniad a goruchwyliaeth ar gyfer cyllid i hwyluso'r ymrwymiadau uchod.

- Ystyried sut y gallai'r Swyddfa Genedlaethol arfaethedig gefnogi'r gwaith hwn orau.

- Ystyried a chytuno ar safbwyntiau ar ddulliau arloesol a datblygu cynigion i lywio penderfyniadau'r Gweinidogion.

- Goruchwylio gwaith a chyflawni'r Tîm Trawsnewid.

- Cysylltu profiadau byw plant ac ymarferwyr â chyflawni'r ymrwymiadau hyn yn y Rhaglen Lywodraethu, gan sicrhau bod y materion a wynebir yn cael eu hystyried wrth ddatblygu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Sicrhau hefyd fod ffocws clir ar leihau nifer y systemau gwybodaeth, symleiddio rhannu gwybodaeth sydd, yn ei dro, yn galluogi ein hymarferwyr.

**Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Cyflawni**

- Caiff swyddogaeth yr ysgrifenyddiaeth ei darparu gan aelodau o'r tîm Gwella Canlyniadau i Blant, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio.

- Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i'r aelodau mewn modd amserol.

- Efallai y bydd adegau pan fydd angen i'r Grŵp gynnal cyfarfod eithriadol i ymdrin â phenderfyniadau neu faterion penodol. Mewn rhai amgylchiadau, bydd aelodau'n cael papurau i'w hystyried ‘y tu allan i'r pwyllgor’.

- Bydd papurau ar gyfer y Grŵp gan gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni'r Ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu yn cael eu darparu o leiaf dri diwrnod gwaith cyn pob cyfarfod.

**Amseriad**

Bob deufis i ddechrau; caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd i gadarnhau a yw'r amserlen hon yn briodol.

**Aelodaeth**

**Cynrychiolir y bobl / sefydliadau canlynol ar y Grŵp**

| |
|---|
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan |
| Dau berson ifanc sydd â phrofiad o'r system ofal |
| CLlLC |
| Arolygiaeth Gofal Cymru |
| Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Swyddfa'r Comisiynydd Plant |
| Cafcass Cymru |
| Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol |
| Barnardo's Cymru |
| Plant yng Nghymru |
| NYAS Cymru |
| Voices from Care Cymru |
| NSPCC Cymru |
| EYST |
| Cwmpas |
| Swyddogion polisi Llywodraeth Cymru o<br><br>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Swyddfa'r Cabinet<br>CAMHS ac Iechyd Meddwl Cyn-filwyr<br>Tegwch mewn Addysg<br>Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol<br>Polisi Tai<br>Cymunedau a Threchu Tlodi |

# Cerrig Milltir ein Rhaglen Drawsnewid

2023 | 2024 | 2025 | 2026

## Cefnogi plant i aros gyda theuluoedd

**Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol newydd**
- Sefydlu grŵp arbenigol (Chwef 2023)
- Cydgynhyrchu cynnwys
- Drafft cyntaf y Fframwaith (Haf 2023)
- Ymgynghori (Haf 2023)
- Hyfforddiant, Ymwybyddiaeth a Chyflwyno (Diwedd 2023)

**Eiriolaeth rhieni**
- Cymeradwyo'r Fframwaith Eiriolaeth Rhieni
- Dechrau ei gyflwyno'n genedlaethol – Ebrill 2023

**Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC)**
- Parhau i gefnogi cynllun peilot FDAC
- Cefnogi cam olaf gwerthusiad cynllun peilot FDAC
- Ystyried ei gyflwyno'n genedlaethol (gwanwyn 2024)

**Cefnogi cydweithio amlasiantaethol**
- Gweithdy amlasiantaethol - dysgu ar y cyd (gwanwyn 2023)

## Darpariaeth ar sail anghenion a gwerthoedd

**Cyflwyno'r Model Ysgolion Rhithwir**
- Digwyddiad dysgu ar y cyd (hydref 2023)
- Gwerthuso'r cynllun peilot Ysgolion Rhithwir

**Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig**
- Cwblhau'r arolwg (Rhagfyr 2022)
- Sefydlu grwp arbenigol (gwanwyn 2023)
- Dadansoddi argymhellion yr arolwg (Cwblhau erbyn diwedd 2023)
- Datblygu cynllun gweithredu

**Datblygu Maethu Cymru**
- Adolygiad o'r Fframwaith Dysgu a Datb. (Ion 2023)
- Lwfans uwch a lansio cynllun cened. cyfeirio ffrind (gwanwyn 2023)
- Cynnig Craidd/Ymrwymiad Cenedlaethol (haf 2023)
- Datblygu pecyn adnodd (o Awst 2023)
- O bosib, cyflwyno harmoneiddio ffioedd (gwanwyn 2024)
- Swyddog recriwto penodol i bob ALl (erbyn gwanwyn 2024)

**Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal**
- Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a rhoi cyngor i'r Gweinidog (gwanwyn 2023)
- Gweithio ar gynllun gweithredu a deddfwriaeth (gwanwyn 2023)
- Cyfarfodydd I drafod Strategaethau Comisiynu Lleoliadau yr ALlau (2023)
- Dechreuwyr newydd– Nid-er-elw yn unig (Ebrill 2026)

## Llais plant a phobl ifanc

**Uwchgynadledd profiad o ofal**
- Uwchgynhadledd gyntaf (Rhag 2022)
- Llofnodi datganiad yr uwchgynhadledd a dechrau gwaith i gefnogi gweithredu
- Ail uwchgynhadledd (Rhagfyr 2023)

**Rhianta corfforaethol**
- Lansio'r siarter a'i llofnodi ar draws y sector (gwanwyn 2023)
- Canllawiau statudol cryfach yn dod i rym (gwanwyn 2024)

**Gweithio gydag ymarferwyr**
- Digwyddiad i ymarferwyr i rannu arferion gorau (haf 2023)